

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

# 4 Nain


Roderick Hunt Alex Brychta



DRAKE





Daeth car at y tŷ.
Rhedodd y plant i weld.
‘Nain sydd yma,’ meddai Onw.




‘Dowch i mewn,’ meddai Mam.
‘Dowch i mewn,’ meddai Dad.



Helpodd y plant.
Aethon nhw â phethau Nain.
‘Am lot fawr o bethau!’ meddai Onw.




Roedd y plant yn hoffi Nain ac roedd Nain yn hoffi'r plant.



'Dowch i weld fy nheganau,' meddai Onw.
'Dowch i weld f'ystafell,' meddai Cad.
'Dowch i chwarae,' meddai Dids.




Chwaraeodd Nain efo'r plant.
Chwaraeon nhw y tu mewn.
'O na!' meddai Mam.






Aethon nhw allan a chwaraeon nhw bêl-droed.
'O na!' meddai Dad.




Aeth Nain â'r plant allan.
Aethon nhw yn hen gar Nain.
Aeth Wilff a Wilma hefyd.




'Am hen gar!' meddai Wilff.
'Mae'n gar da,' meddai Nain.




Aeth Nain â nhw i'r ffair bleser.
'Cawn ni hwyl yma!' meddai Nain.
'Dowch, bawb.'



Dechreuodd y plant redeg.
Roedden nhw eisiau mynd ar bopeth.
'Dowch, Nain!' galwon nhw.




'Edrychwch ar hwn,' meddai Onw.
'Castell ydi o.
Mae'n cael ei alw'n Gastell Neidio.'



Aeth y plant ar y castell neidio.
'Mae hyn yn hwyl,' galwodd Wilma.



Neidiodd a neidiodd y plant, a bownsio a bownsio.


'Dowch, Nain!' galwon nhw.



Aeth Nain ar y castell.

Neidiodd a bownsiodd.

'Da iawn, Nain!' galwodd y plant.



Gwnaeth Nain dwll yn y castell.
'O na!' meddai'r plant.
Dechreuodd y gwynt fynd o'r castell.




Rhedodd dyn i fyny.
Roedd yn flin efo Nain.
'Edrychwch ar fy nghastell,' gwaeddodd.







'Ewch adref!' gwaeddodd y dyn.
'A pheidiwch â dod yn ôl.'
Aeth Nain â'r plant adref.



Dywedodd Cad hanes y castell wrth Mam.
Roedd Mam yn flin efo Nain.
Roedd Nain yn drist.





Roedd Nain yn ystafell Dids.
Edrychodd ar yr allwedd hud.
Roedd yr allwedd yn disgleirio.



Cododd Nain yr allwedd a rhedodd i ystafell Cad.

'Edrychwch ar hon,' meddai hi.



'O na!' meddai Onw.

'Hud a lledrith.

Mae'r hud yn gweithio.'



Aeth yr hud â nhw ar antur newydd.



Argraffwyd yng Nghymru

# 4 Nain

Stori gan
**Roderick Hunt**

Trosiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

**Storïau yng Ngham 5:**

**Storïau Boncyff**

1 Yr Allwedd Hud
2 Antur gyda'r Môr-ladron
3 Coeden y Ddraig
4 Nain
5 Antur yn y Castell
6 Y Pentref yn yr Eira

**Rhagor o Storïau Pecyn A**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Y Peth'ma
Antur dan y Ddaear
Eli Diflannu
Dydi o ddim yn Deg
Y Ras Fawr
Anghenfil o Jôc

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1986
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1998
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-156-0

9 780861 741564

ISBN 0 86 174156 0

DRAKE

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 5

Llyfr 4